



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Mawrth 2014 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 March 2014 at 6.30pm
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Gwynfi Jenkins (**yn y gadair/in the chair**),
Graham Evans, John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Llwyd Edwards,
Melfydd George, Neal Jones, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol / The Chair's Welcome and Personal Matters.**
Croesawodd y Maer, y Cyng. Gwynfi Jenkins, bawb i'r cyfarfod, ac aeth ymlaen â'r agenda.
The Mayor, Cllr Gwynfi Jenkins, welcomed all to the meeting and proceeded with the agenda.
- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng./Cllr Ken Edwards
- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
-----------------------------	-------------------------------------------------

- 4. Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y cyngor 4 Chwefror.**
Confirmation of council minutes of 4 February meeting.
Tud. 810, eitem 9(c)(ii): angen newid y cymal i ddarllen "i'w ailosod yr wythnos hon am y tro cyntaf mewn 34 o flynyddoedd."
Tud. 812, eitem 10[213]: yr amser i ddarllen "6.00" ac nid "6.30".
Tud. 814, eitem 14(b): y frawddeg i ddarllen: "Mae'r clwb rhwyfo lleol yn hyfforddi ar yr afon gan baratoi at y Ras Sialens Celtaidd sydd i'w chynnal cyn bo hir."

Page 810, item 9(c)(ii): correct in English.

Page 812, item 10[213]: time to be "6.00" not "6.30".

Page 814, item 14(b): the sentence to read: "The local rowing club is training on the river in preparation for the Celtic Challenge Race which is scheduled to take place shortly."

Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod cofnodion y cyngor misol, 4 Chwefror, yn gywir.

With the above amendments, Cllr Dai Brabrook proposed that the 4 February council monthly minutes were correct. This was seconded by Cllr Jane Roche.

- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from minutes.**
Tud. 810, eitem 9(c)(iv): Mae'r cyngor sir bellach wedi cytuno cael cyfarfod gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
Tud. 812, eitem 10[211]: Mae'r cais am gymorthdal o £252 at gynnal gwefan y cyngor wedi ei anfon at y cyngor sir.
Tud. 812, eitem 10[213]: Mae'r cais cynllunio A130943 am bopty yn yr Hen Lys wedi ei dynnu nôl.
Tud. 812[220]: Dywedodd y Cyng. Richard Jones y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Sianel Glir Afon Teifi Cyf. ar 5 Mawrth.
Tud. 813, eitem 11 (Toiledau Cyhoeddus): Nid oes ymateb wedi ei dderbyn i gynigion y cyngor ynglŷn â chyfleusterau cyhoeddus y dref.

Page 811, item 9(c)(iv): The county council has decided to meet with the officers of the Hywel Dda Health Board.

Page 812, item 10[211]: The application for a grant of £252 to maintain the council website has been forwarded to the county council.

Page 812, item 10[213]: The planning application A130943 for a bakery at the Old Courthouse has been withdrawn.

Page 812, item 10[220]: Cllr Richard Jones stated he that would raise the matter at the Afon Teifi Fairways Ltd meeting on 5 March.

Page 813, item 11 (*Public Conveniences*): A response to the letter forwarded by the clerk to Mr Paul Arnold on 19 February is still awaited.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for your diary.

Atgoffwyd yr aelodau am y cyfarfod sydd wedi ei drefnu i gyfarfod â'r Athro Medwin Hughes yng Ngholeg Ceredigion nos Iau, 6 Mawrth am 7.00 o'r gloch.

Cynhelir cyngerdd yng Nghapel Bethania nos Fercher, 12 Mawrth am 7.30 o'r gloch.

Members were reminded of the meeting arranged with Professor Medwin Hughes at Coleg Ceredigion on Thursday, 6 March at 7.00pm.

A concert will be held at Bethania Chapel on Wednesday, 12 March at 7.30pm.

7. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A140062	Dove Cottage, 7 Williams Row	Demolition of chimney stack and re-instating roof covering to match the existing one.	Council has no objection but has the following observations: members voiced their concern regarding the visual impact on a conservation area; a dummy chimney could be substituted.
A140098	Plot 63 Maes y Dderwen	Retention of dwelling as built (amended fenestration and conservatory)	Council is displeased with retrospective planning. As insufficient information has been received to reach a decision, planning officers are advised to take relevant action.

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A130807	Crugmore Farm, Penyparc	Construction of (12.4ha) ground-mounted solar pv (6.375mw) and associated works	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (13)

8. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

Dyddiad / Date	Taledigion / Payee	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/3/14	Antur Teifi: Rhent y Swyddfa/Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
10/2/14	CTP Welding & Fabricating: Cywiro bin/Repair to Guildhall bin	C2	3909	£48.00 (8.00)
11/2/14	Menter Aberteifi: Trydan i'r goleuadau Nadolig. Electricity for Christmas lights	B1	3910	£35.00 (0.00)
28/2/14	Trywydd (Cyfieithu ar y pryd/ Simultaneous translation) Ionawr/January 7 Ionawr/January 14 Chwefror/February 4	A17	3911	£92.40 (15.40) £134.40 (22.40) £113.40 (18.90)
28/2/14	L. W. Jones: Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Chwefror/February) ac ôl-daliad/with back pay to April 1	A3	3912	£782.50 (0.00)
1/3/14	Antur Teifi: Rhent yr Ystafell Gynhadledd. Rent of Conference Room (4/2/14 & 18/2/14)	A7	3913	£60.00 (10.00)
29/2/14	Danwood: Llungopio/Photocopying	A16	3914	£8.52 (1.42)
4/3/14	Argraffwyr E. L. Jones Printers: Deunydd argraffu/Stationery	A5	3915	£94.80 (15.80)
28/2/14	Bachan Deche / Handyperson (Chwef./February)	A18	3916	£37.80 (6.30)

Eglurodd y clerck ei fod wedi cael cynlluniau o holl ddraeniau dŵr y dref wedi eu hargraffu ar siartiau A3 mewn lliw. Byddant ar gael yn y swyddfa er gwybodaeth.

The clerk stated that he had obtained plans of the water drain system in Cardigan and had them printed on A3 charts in full colour. They will be available at the clerk's office for information.

Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole bod y biliau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Mark Cole that all the above bills be paid.

<i>Derbyniadau/Receipts:</i>	9/1/14	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£3.44
	10/2/14	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£2.87
	28/2/14	<i>Clwb Bowls Aberteifi (prydles)</i>	
		Cardigan Bowls Club (lease)	£400.00

Cronfa'r Maer / Mayor's Fund:

<i>Bore Coffi/Coffee Morning</i>	£610.80 + £10.00	£620.80
<i>Cyfraniadau unigol/Individual donations to the Mayor and Mayoress</i>		£170.00

Diweddariad Cronfa'r Llifogydd / Update on Flood Fund.

<i>Mewn llaw / Carried forward</i>		<u>£4,967.55</u>
Capel Mair, Aberteifi		331.09
Y Gwir Barchedig Saunders a Mrs Cynthia Davies, 5 Maes-y-coed		30.00
Cylch Cinio Teifi		500.00
		<u>£5,828.64</u>

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr at Kevin Alldritt yn gofyn i'r adran briffyrdd osod arwydd yn rhybuddio cerbydau trwm a lorïau rhag defnyddio Ffordd Caemorgan.
- (ii) Llongyfarchodd y Cyng. Adams-Lewis Bwyllgor Gweithredol Gogledd Aberteifi ar lwyddiant y bore coffi yn y Clwb Bowls fore Sadwrn, 1 Mawrth. Codwyd elw o £930 i frwydro i gadw'r maes chwarae ym Maesglas rhag ei ddatblygu gan gwmni Tai Ceredigion.
- (iii) Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi ymateb ar ran y cyngor i ddogfen ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar lonydd gwyrdd pentrefi.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Datganodd y Cyng. Miles bod grŵp Cynllun Llifogydd lleol wedi ei sefydlu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Ms Kathleen Martin yw'r cydlynnydd gyda'r PCSO Matthew Kieboom a chynghorwyr ward Teifi yn aelodau o'r grŵp. Yn dilyn y llanw uchel diwethaf, profwyd bod y cynllun yn gweithio'n effeithiol gyda phawb yn cysylltu â'i gilydd ac yn cydweithio yn Gloster Row ar y Sul a'r Llun.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Miles bod achwynion yn cyrraedd oddi wrth y cyhoedd am nad oes palmant ar Ffordd Llandudoch. Disgwylir i breswylwyr ar hyd y ffordd roi'r tir o flaen eu tai er mwyn gosod palmant; ychwanegodd y byddai hyn yn dipyn o broblem a bod y dŵr sydd yn rhedeg o'r meysydd gerllaw yn pery problem am nad oes palmant na draeniau dŵr ar y ffordd. Dywedodd bod gan Lywodraeth Cymru gynllun "Safe Routes" i gynnig grant am waith ar ffyrdd tebyg.
- (iii) Goleuadau traffig Gamallt: Dywedodd y Cyng. Miles ei bod wedi anfon llythyr at Edwina Hart AC yn achwyn am y broblem hir-dymor yma; disgwylir ymateb ymhen 17 diwrnod gwaith, sef erbyn 26 Mawrth 2014.
- (iv) Er gwybodaeth: cynhelir Ras yr Iaith nos Wener, 20 Mehefin. Cofier bod cyngor y dref wedi noddi'r daith gyda chyfraniad o £250.
- (v) Mae'r Cyng. Miles wedi ei phenodi i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda; cynhelir gweithdy yn Aberystwyth ddydd Gwener, 7 Mawrth.

(c) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Safle datblygu Maes-yr-haf: Dywedodd y Cyng. Cole bod y safle wedi ei glirio a disgwylir contractwyr newydd ddechrau ar y gwaith cyn bo hir.
- (ii) Dywedodd y Cyng. Cole bod nam ar bolyn golau ar Rodfa'r Felin; mae Neil Garrod wedi ei hysbysu o'r broblem.
- (iii) Mae'r golau ar y bont yn dal heb ei gywiro.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The clerk was asked to send a letter to Kevin Alldritt of the highways department requesting a sign to be placed at the entrance to Caemorgan Road prohibiting heavy vehicles from using the road.
- (ii) Cllr Adams-Lewis congratulated the North Cardigan Action & Support Group on the success of the coffee morning at the Bowls Club on 1 March in raising £930 for their efforts to protect the Maesglas play area from developing by Tai Ceredigion.
- (iii) Cllr Adams-Lewis has responded on behalf of the council to the Welsh Government "Positive Planning" consultation document regarding town and village greens.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles stated that a Flood Scheme group had been formed in tandem with Natural Resources Wales. Ms Kathleen Martin is the convener with PCSO Matthew Kieboom and town council Teifi ward councillors as members. Following the recent high tide, the group proved invaluable with all members consulting and cooperating at Gloster Row on the Sunday and Monday.
- (ii) Complaints that no pavement has been placed on the St Dogmaels Road have been received by Cllr Miles. A suggestion has been put forward that house owners might donate a section of their land in order that a pavement could be placed; Cllr Miles added that surplus water gathering from the upper fields was causing flooding as there was no pavement nor storm water drains on the roadside. Seemingly the Welsh Government has a "Safe Routes" scheme to offer grants to alleviate such problems.
- (iii) Gamallt traffic lights: Cllr Miles stated that she had forwarded a letter regarding this long-term traffic hold-up to Edwina Hart AM; a response is expected within 17 days (by 26 March 2014).
- (iv) For information: The Race for the Language will be held on Friday, 20 June. The town council has sponsored the event to the tune of £250.
- (v) Cllr Miles has been appointed onto the Hywel Dda Community Health Council; the next workshop will be held at Aberystwyth on Friday, 7 March.

(c) Cllr Mark Cole:

- (i) The Maes-yr-haf development: Cllr Cole stated that the site had been cleared and that new contractors are expected shortly.
- (ii) Cllr Cole mentioned that there was a problem with one of the light poles at Rhodfa'r Felin; Neil Garrod has been informed.
- (iii) The lights located on Cardigan bridge are still not working.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
232	CSC/CCC (Claire Jones): <i>Ffurflen er cael ad-daliad am y safle we.</i> Form for obtaining grant for the website.	<i>Ffurflen wedi ei llenwi a'i gyrru'n ôl i'r swyddfa.</i> Form claiming a grant of £252 has been completed and returned to the office on 24/2/14.
233	CSC/CCC (Alun Williams): <i>Cyfarfod Arbennig – Darpariaeth TCC yng Ngheredigion.</i> Special Meeting – CCTV Provision in Ceredigion.	<i>Mynychwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ar 18/2/14.</i> Attended by Cllr John Adams-Lewis on 18/2/14.
234	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Cyfarfod Ymgynghorol 2014, Ffestri'r Tabernacl, 26/3/14, 5.30pm.</i> Consultative Meeting 2014, Tabernacl Vestry.	<i>Penderfynwyd derbyn cwestiynau erbyn yr is-bwyllgorau.</i> It was decided to prepare questions by the next sub-committees. Cllr Adams-Lewis gave his apology for his absence from the meeting.
235	CSC/CCC (Gerwyn Jones): <i>Trefniadau gosod binau newydd yn y dref.</i> Arrangements regarding the placing of new litter bins on the pavements of Cardigan.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

236	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Cyhoeddiadau y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (CDLI) 2007-2022 sy'n cynnwys: Cyfrol 1 – Polisiâu; Cyfrol 2A – Datganiadau y Grŵp Aneddiadau; Cyfrol 2B – Mapiau Cynigion (gan gynnwys Mapiau Inset).</i> Published copies of the Adopted Local Development Plan (LDP) 2007-2022 comprising of: Volume 1 – Policies; Volume 2A – Settlement Group Statements; Volume 2B – Proposal Maps (including Inset Maps)	<i>Dogfennau llawn ar gael yn swyddfa'r cyngor.</i> Full documents can be viewed at the clerk's office. <i>Caiff yr hen ddogfennau eu clirio o'r swyddfa.</i> All previous documents can now be disposed.
237	CSC/CCC (Allan Jones): <i>Copi o lythyr anfonwyd yn ôl i'r adran ar ran Ms Sarah Gilbert yn achwyn am doriadau mewn gofal seibiant 2014-15.</i> Copy of letter sent to the department on behalf of Ms Sarah Gilbert stating concerns to the respite care for 2014-15.	<i>Cydymdeimlwyd â'r teulu yn ddirfawr a chytunwyd anfon llythyr at yr adran berthnasol i'w cefnogi.</i> Members sympathised fully with the family; it was agreed to forward a letter of protest to the department.
238	CSC/CCC (Phil Jones): <i>Yn cadarnhau y cynhelir arolwg topograffaid ac ymchwiliad teledu cylch cyfyng o systemau'r dŵr ar wyneb y briffordd yn y Strand a'r ardal gyfagos.</i> Confirmation that the county council will carry out a topographical survey and a CCTV inspection of the water systems on the surface of the road in the Strand and neighbouring areas.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
239	Menter Aberteifi: <i>Ymateb i gais y cyngor am wybodaeth am berchnogaeth grisiau Neuadd y Dref.</i> Response to the council's query regarding the ownership of the Guildhall steps.	<i>Cytunwyd ysgrifennu at y cyngor sir i'w hannog i osod rheilen ar risiau Neuadd y Dref.</i> It was agreed to write to the county council suggesting the placement of a handrail on the Guildhall steps.
240	Mr J. B. Evans, Manana, Ferwig Road: <i>Cais am ateb i'w lythyr (Rhagfyr 2013).</i> Request for a response to his letter of December 2013 [164]	<i>Cytunwyd anfon copi o lythyr Mr Evans at swyddogion y Clwb Rygbi a gofyn iddynt diddymu'r gair "Admission" sydd ar flaen y rhaglen.</i> It was agreed to forward a copy of the e-mail to the Rugby Club and request the club to delete the word "Admission" from the cover of the programme.
241	<i>Age Cymru Ceredigion: Arddangosfa yn y Gyfnewidfa Yd, 10-15 Mawrth. Exhibition at the Corn Exchange, 10-15 March.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
242	<i>Un Llais Cymru: Aelodaeth 2014-15.</i> One Voice Wales: Membership 2014-15 (£590)	<i>Cynigydd/Proposer: Y Cyng./Cllr Melfydd George; Eilydd/Seconder: Y Cyng./Cllr John Adams-Lewis. Bod y cyngor yn diddymu ei aelodaeth am y tro.</i> That the council cancels its membership for the time being.
243	Coleg Ceredigion: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu achlysur i groesawu myfyrwyr o Chalonne-sur-Saône, Ffrainc.</i> An invitation to the Mayor to attend an event to welcome students from Chalonne-sur-Saône on 6/5/14 at 12.00 noon	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
244	RAY Ceredigion: <i>Cynhadledd Chwarae Ceredigion, Gwesty Tyglyn, Ciliau Aeron, 24/3/14, 9.30-3.15yp.</i> Ceredigion Play Conference. <i>Hefyd cadarnhad o gasgliadau'r arolwg ar leoedd chwarae a chaeau chwarae Ceredigion – i'w dychwelyd at Gill Byrne.</i> Also Confirmation of survey findings Ceredigion playgrounds and playing fields – to be returned to Gill Byrne.	<i>Bydd y canlynol yn mynychu'r gynhadledd:</i> The following will attend the conference: Y Cyng./Cllrs John Adams-Lewis, Catrin Miles, Jane Roche. <i>Cytunodd y Cyng. Roche gynnig sylwadau ar yr arolwg.</i> Cllr Roche agreed to offer observations on the survey.
245	<i>Mrs Myra Evans, Aberporth: Llythyr yn gofidio am benderfyniad Santander i gau'r swyddfa yn Aberteifi.</i> Letter of concern regarding the closure of the Santander office in Cardigan.	<i>Cytunwyd anfon llythyr at y cwmni yn gofyn iddynt ymestyn y gwasanaeth sydd ar gael yn Aberteifi.</i> It was agreed to forward a letter protesting against the closure of the office and to request that the company offers the services of a full branch.
246	Cyngor Cymuned Eglwyswrw: <i>E-bost yn mynegi pryder y cyngor am y gwaith ar y ffordd ger Gamallt.</i> E-mail stating the council's concerns regarding the roadworks near Gamallt.	<i>Mae'r Cyng. Catrin Miles wedi anfon llythyr at Edwina Hart AC a disgwylir ymateb erbyn 26 Mawrth.</i> Cllr Catrin Miles has contacted Edwina Hart AM regarding the matter and a response is expected by 26 March.

247	M Jean-Jacques Faucher, Mayor of Brioude: <i>Cylchlythyr o weithgareddu Brioude</i> . Newsletter of Brioude activities.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
248	<i>Llywodraeth Cymru: Holiadur ynglŷn â lawntiau pentref.</i> Welsh Government: Questionnaire regarding village greens.	<i>Sgan wedi ei flaenyrru i gynghorwyr ar 19/2/14.</i> Scan forwarded to members on 19/2/14.
249	<i>Llywodraeth Cymru (Is-Adran Môr a Physgodfeydd): Dogfen Ymgynghorol.</i> Welsh Government (Marine & Fisheries Division): Consultation Document	Dogfen ar gael yn swyddfa'r cler. <i>Document available in the clerk's office.</i>
250	<i>Sefydliad Aren Cymru: Cais am gymorth ariannol.</i> Kidney Foundation Wales: Application for financial support. (27/4/14)	Dogfenni ar gael yn swyddfa'r cler. <i>Documents available in the clerk's office.</i> <i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the Grants Sub-committee in April.
251	Teenager Cancer Trust: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the Grants Sub-committee in April.
252	NSPCC: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the Grants Sub-committee in April.
253	Victim Support: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the Grants Sub-committee in April.
254	<i>Adroddiad y Bachan Deche am fis Chwefror.</i> Handyperson's Report for February.	<i>Dim i'w drafod oherwydd llawdriniaeth i'r Bachan Deche.</i> No matters to discuss due to the Handyperson's hospital treatment.
255	<i>Llywodraeth Cymru/Welsh Government: Positive Planning Consultation Document: Town and Village Greens</i>	<i>Y ddogfen wedi ei flaenyrru i'r holl gynghorwyr.</i> Document forwarded to all councillors.

Swyddogion y Cyngor Sir/ County Council Officers:

Allan Lewis:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.</i> Head of Economic and Community Development Services.
Huw Williams:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw.</i> Head of Lifestyle Services.
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
Claire N. Jones:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.</i> Head of Legal, Human Resources and Democratic Services.
Alun Williams:	<i>Pennaeth Cefnogi Polisi /</i> Head of Policy Support
Gerwyn Jones:	<i>Rheolwr Strydlun Trefol /</i> Urban Streetscene Manager
Allan Jones:	<i>Pennaeth Comisiynu Strategol (Gofal), Sicrwydd a Gwasanaethau Tai.</i> Head of Strategic Commissioning (Care), Assurance and Housing Services.
Phil Jones:	<i>Pen Beiriannydd Cynnal a Chadw (Priffyrdd) /</i> Principal Maintenance Engineer (Highways)

11. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Gan nad oedd Mr Paul Arnold wedi ymateb i sylwadau'r cyngor, ni thrafodwyd y mater.

As a response is still awaited from Mr Paul Arnold to the council's observations, no discussion took place.

12. Camerâu TCG / CCTV Cameras 2014-15

Derbyniwyd prisiau oddi wrth y cyngor sir am gynnal a chadw'r teledu cylch cyfyng drwy'r sir. Pe bai Aberteifi yn sefyll ar ben ei hun, byddai'r gost o gynnal pedwar camera yn £23,985; pe bai'r gost yn cael ei rhannu gyda chynghorau trefi Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth, byddai'n £11,632.33. £8,000 y flwyddyn bu'r gost dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r gost am y flwyddyn gyfredol yn £5,000. Mae cynghorau Aberaeron a Chei Newydd wedi tynnu'n ôl o'r cynllun; mae cynghorau tref Llanbedr ac Aberystwyth ar hyn o bryd yn ystyried eu penderfyniad.

Trafodwyd y mater yn drwyadl gan aelodau. Gofidiwyd bod y cyngor sir wedi diddymu ariannu'r cynllun o 2014-15 ymlaen. Roedd diswyddiaeth pedwar o weithwyr oedd â gofal am archwilio'r cabin TCC hefyd yn anfodhaol. Gofidiwyd hefyd bod awdurdod yr heddlu, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, yn gosod y camerâu'n llonydd ac y byddent yn monitro'r system yn ystod digwyddiadau penodedig yn unig.

Mae cynghorau bro a thref wedi gosod eu cyllideb am y flwyddyn 2014-15; mae Cyngor Tref Aberteifi wedi trefnu cefnogi ac ariannu anghenion ychwanegol oherwydd y toriadau erchyll a ddisgwyllir gan y cyngor sir, ac o'r herwydd, ar y funud olaf hon, teimlwyd gan aelodau nad oedd dewis ond gwrthod y cynnig i ariannu trawsyrru a chynnal a chadw'r system.

Yn dilyn trafodaeth eang, cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod Cyngor Tref Aberteifi yn tynnu allan yn llwyr o raglen Teledu Cylich Cyfyng y sir. Pleidlesiodd deg aelod dros y cynnig ac ataliodd tri aelod eu pleidlais.

A spreadsheet detailing figures of possible contributions towards the CCTV system has been received from the Administrative Assistant of the Community Safety and Civil Contingencies Unit, Aberaeron. If Cardigan stood alone, the annual cost of 4 cameras would be £23,985; if the service is shared with Lampeter and Aberystwyth town councils, £11,632.33. During past years the cost has been £8,000 per annum reduced to £5,000 for the current year. Aberaeron Town Council and New Quay Town Council have withdrawn from the CCTV programme; Lampeter and Aberystwyth town councils are, at the moment, undecided.

The matter was fully discussed by members. Concern was expressed following the decision by Ceredigion County Council to withdraw its funding for the system from 2014-15 onwards. The redundancy notices given to three county council employees who manned the CCTV cabin in Aberystwyth also caused dismay. Members were also concerned that the police authority, due to their budgetary constraints, intend to place the cameras in a fixed position and would monitor the cameras only at specific events.

All local community and town councils have set their budgets for the forthcoming financial year; Cardigan Town Council is committed to various capital outlays imposed by the impact of the budgetary savings of the higher authority, and at this late hour has no alternative but to reject the proposal to fund the transmission and maintenance of the system.

Following a lengthy discussion, it was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Llwyd Edwards that the town council resolves to fully withdraw from the CCTV programme. Ten members voted for the resolution with three abstentions.

- 13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgor 18 Chwefror.
Confirmation of 18 February Sub-committee minutes.

Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod cofnodion 18 Chwefror yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones.

Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes of 18 February were correct; this was seconded by Cllr Neal Jones.

Materion yn codi:

Tud. 816 (Priffyrdd): Binau strydoedd Aberteifi: gweler Gohebiaeth [235].

Tud 816 (Gohebiaeth): Mae llythyron o gefnogaeth wedi eu hanfon at Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi a Menter Aberteifi.

Tud. 816 (Gohebiaeth): Coleg Ceredigion – cadarnhad o amser y cyfarfod gyda'r Athro Medwin Hughes, sef 7.00 o'r gloch ym mwyty'r Coleg. Derbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw oddi wrth y Cynghorwyr Mark Cole, Clive Davies a Catrin Miles.

Tud. 816 (Casgliad y Llifogydd): Dywedodd y clerc bod y tri enwebiad wedi derbyn y cyfrifoldeb i wasanaethu ar y panel.

Tud. 817 (Balchder Pentrefi): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod Jill Fairweather (CADW) yn bles gyda'r briciau coch a hufen a ddefnyddir i'r bandstand, a bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn hwylus. Cynhelir agoriad swyddogol wedi gorffen y gwaith.

Matters arising:

Page 816 (*Highways*): Cardigan Litter Bins: see Correspondence [235].

Page 816 (*Correspondence*): Letters of support have been forwarded to Cardigan Building Preservation Trust and Menter Aberteifi.

Page 816 (*Correspondence*): Coleg Ceredigion: Confirmation of time for the meeting with Prof. Medwin Hughes: 7.00pm at the Coleg Ceredigion Restaurant. Apologies for absence have been received in advance from Cllrs Mark Cole, Clive Davies and Catrin Miles.

Page 816 (*Flood Collection*): The clerk reported that all three nominated independent members had accepted the responsibility to serve on the panel.

Page 817 (*Balchder Pentrefi*): Cllr Catrin Miles reported that Jill Fairweather of CADW was agreeable to the red and cream bricks for the base of the bandstand, and that the work was proceeding well. An official opening of the bandstand will be announced soon.

14. (a) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2014-15.

(a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2014-15.

Cynigiwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. Graham Evans, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2014-15. Roedd pawb yn gytûn.

It was proposed by Cllr Gwynfi Jenkins and seconded by Cllr Mark Cole that the Deputy Mayor, Cllr Graham Evans, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2014-15. All councillors were in favour.

(b) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2014-15.

(b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2014-15.

Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y Cyng. John Adams-Lewis i'w ethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2014-15. Roedd pawb yn gytûn.

Cllr Melfydd George proposed that Cllr John Adams-Lewis be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2014-15. This was seconded by Cllr Jane Roche. All councillors were in favour.

15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) Archwilydd Mewnol y Cyngor: Gofynnodd y clerc am ganiatâd y cyngor i wahodd Mr Ken Griffiths, Cyfrifydd, Aberteifi, i archwilio cyfrifon y cyngor am y flwyddyn 2013-14. Rhoddwyd caniatâd.

Council's Internal Auditor: The clerk asked permission to request Mr Ken Griffiths, Accountant, Cardigan, to serve as the council's Internal Auditor for the financial year 2013-14. The request was granted.

(b) Rhestr swyddogol y cyngor. Cytunwyd i'r cyn-Feiri archwilio'r rhestr cyn anfon gwahoddiadau sefydlu'r Maer, nos Fawrth, 18 Mawrth am 5.30 o'r gloch.

The council's Official list: It was agreed for past Mayors to scrutinise the list prior to the posting of invitation cards for the Mayor-making ceremony, Tuesday, 18 March at 5.30pm.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh.

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 9.00pm.

Arwyddwyd/Signed (*Cadeirydd/Chairperson*) Dyddiad/Date